



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Tryfan  
Lôn Powys  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2TU**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Tryfan

Mae Ysgol Tryfan yn ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11 i 18 oed sydd yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn ninas Bangor, ac yn gwasanaethu dalgylch trefol.

Mae 426 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 80 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth, sydd yn is nag ar adeg yr arolygiad diwethaf ym mis Hydref 2013. Mae 12.6% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol yn ddi-dâl sydd yn is na'r canran cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%.

Mae 20.0% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, sydd ychydig yn is na'r canran cenedlaethol o 22.5%. Mae 3.3% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 2.2%.

Daw tua 64% o'r disgyblion o gartrefi ble mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol ac mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndir ethnig cymysg. Nid oes disgyblion sy'n derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2019. Mae'r uwch dim arwain yn cynnwys dau ddirprwy bennaeth parhaol a dau bennaeth cynorthwyol dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

## Crynodeb

Mae Ysgol Tryfan yn gymuned glòs, gynhwysol a Chymreig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn rhagorol ac yn ymfalchio o fewn awyrgylch gefnogol sy'n deillio o naws deuluol Gymreig yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae llawer yn dangos aeddfedrwydd cynyddol, gan ddod yn ddysgwyr hynod o hyderus ac annibynnol. Mae cyfraniadau gwerthfawr y disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol yn gryfder nodedig.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol ac yn cyfleu uchelgais amlwg ar gyfer gwaith yr ysgol. Maent yn rhoi pwyslais clir ar wella safonau ac addysgu a darparu'r gorau ar gyfer pob disgybl. Er bod yr adeiladau wedi dyddio, mae'r disgyblion yn parhau i elwa o gefnogaeth gynhwysfawr, addysgu cadarn ac amryfal brofiadau gwerthfawr. Mae hyn oll yn ehangu eu gorwelion ac yn cyfrannu'n bwysig at eu hunaniaeth Gymreig.

<b>Maes arolygu</b>	<b>Barn</b>
<b>Safonau</b>	<b>Da</b>
<b>Lles ac agweddau at ddysgu</b>	<b>Rhagorol</b>
<b>Addysgu a phrofiadau dysgu</b>	<b>Da</b>
<b>Gofal, cymorth ac arweiniad</b>	<b>Da</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	<b>Da</b>

## **Argymhellion**

A1 Gwella ansawdd yr asesu

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm

A3 Cydweithio â'r awdurdod lleol i wella'r amgylchedd ddysgu a chyflwr yr adeiladau

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac mewn arholiadau allanol. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn hyderus ac yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn gelfydd.

Mae medrau llafar y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gryfder amlwg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud ac yn barchus ar ei gilydd ac ar eu hathrawon. Maent yn siaradwyr naturiol, rhugl a hyderus sy'n trafod eu syniadau'n frwdfrydig mewn parau a thrafodaethau dosbarth. Er enghraifft, yn eu gwersi Cymraeg, maent yn trafod a dadansoddi'n hyderus effaith trychineb y Rana Plaza yn Bangladesh ar y byd ffasiwn dillad.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Maent yn fedrus wrth gywain gwybodaeth, lleoli ffeithiau a dod i gasgliadau dilys wrth ddarllen tystiolaeth. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth, maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant am y system dreulio i greu ymson brechdan jam. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn fedrus i gynnwys ac arddull testunau llenyddol, er enghraifft wrth ddisgrifio'r awyrgylch anghynnes ac oeraidd yng ngharchar tanddaearol Llundain yn y gwersi Saesneg.

Wrth ysgrifennu, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol ac maent yn ysgrifennu darnau estynedig ar draws ystod o bynciau. Mewn gwersi celf, mae disgyblion yn ysgrifennu erthyglau yn hyderus ar ddyluniau a phatrymau yr artist enwog Cath Kidson. Mae llawer o ddisgyblion yn fedrus wrth ysgrifennu'n annibynnol ac mewn cywair priodol, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu llythyr personol at ffrind yn disgrifio bywyd a hunaniaeth yr Iddew yn eu gwersi addysg grefyddol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau esgeulus ac yn defnyddio geiriau Saesneg yn eu gwaith ysgrifenedig Cymraeg. Nid yw'r disgyblion hyn yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros gywiro eu gwaith cyn i'r athro edrych arno.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif cadarn. Yn y gwersi mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni gwaith mathemateg pen yn llwyddiannus. Maent yn hyderus wrth gymhwyso eu medrau rhifedd i ddatrys problemau sydd wedi eu seilio ar sefyllfaoedd bywyd bob dydd. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion hefyd yn cymhwyso eu medrau rhif yn briodol mewn pynciau heblaw mathemateg. Er enghraifft, mewn gwersi ffiseg, mae disgyblion yn llunio a dehongli graffiau yn effeithiol wrth ymchwilio i'r berthynas rhwng gwrthiant a hyd gwifren.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau TGCh yn briodol i brosesu geiriau, creu cyflwyniadau a thrin data mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cyfyngedig yw eu cynnydd o ran datblygu uwch fedrau TGCh ar draws y pynciau.

Ceir enghreifftiau niferus o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ar draws ystod o bynciau. Er enghraifft, mewn gwersi celf, mae disgyblion yn creu gludwaith o logos cwmnïau ar y cyfrifiadur ac yna'n peintio celfwaith personol o hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn llwyddiannus ac yn gallu rhesymu yn synhwyrol wrth gyflwyno'u safbwyntiau a'u gwerthuso'n effeithiol. Mewn gwerau gwyddoniaeth, mae disgyblion yn frwdfrydig wrth drafod a chydweithio er mwyn datrys problem o ddylunio sbiomedr allan o'r adnoddau a ddarparwyd.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae disgyblion wedi perfformio'n dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, maent yn gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl.

Mae'r cyfran o ddisgyblion chweched dosbarth sy'n cwblhau eu cyrsiau ac yn cyflawni o leiaf dri chymhwyster lefel 3 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn nodwedd gadarnhaol. Yn gyffreinol, mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn perfformio'n debyg i'r hyn a ddisgwylir o ystyried lefelau cyrhaeddiad blaenorol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae disgyblion Ysgol Tryfan yn groesawgar a pharchus ac mae hyn yn elfen drawiadol o ethos yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn ymestyn croeso cynnes iawn i ymwelwyr, yn rhyngweithio'n gyfeillgar â'i gilydd ac yn dangos lefel uchel o barch i'r holl staff. Maent yn ymfalchïo o fod yn rhan o gymuned Gymraeg yr ysgol ac yn siarad yr iaith yn naturiol yn ystod amseroedd egwyl ac o fewn gwerau. Mae'r disgyblion yn ffynnu o fewn awyrgylch gefnogol a Chymreig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod gwerau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn dyfalbarhau â thasgau mewn gwerau. Mae llawer yn cydweithio'n effeithiol iawn mewn grwpiau a pharau, gan ystyried cyfraniadau eraill yn ofalus a chefnogi ei gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae llawer yn dangos uchelgais gryf. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol a hunanhyder hynod o fuddiol drwy gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys band ac ensemble cerddorol, y côr a chlwb celf. Mae rhai wedi bod yn llwyddiannus iawn ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe fu disgyblion yr ysgol yn fuddugol yng nghystadlaethau 'Her Gwyddorau Bywyd Cymru', 'Codio Cymru' a 'Band Cymru'. Yn ogystal, mae disgyblion wedi ennill cyfleoedd prin i gymryd rhan mewn gweithdai rhagoriaeth fel gweithdy haf 'Cerddorfa Ieuencid Prydain'.

Mae nifer o ddisgyblion yn manteisio'n frwd ar ystod eang o gyfleoedd i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth ffurfiol ac anffurfiol o fewn yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgorau addysg, iechyd, chwaraeon, a'r Gymraeg yn ymroddedig ac yn effeithiol yn eu gwaith. Maent wedi cydweithio ag arweinwyr a disgyblion i leihau'r defnydd o blastig yn yr ysgol, i hyrwyddo bwyta'n iach ac i fireinio strategaethau i helpu disgyblion wella'u gwaith o fewn gwerau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i fwyta ac yfed yn iach. Mae nifer o ddisgyblion yn manteisio ar ystod eang o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chadw'n heini o fewn a thu allan i'r ysgol. Mae nifer yn cystadlu fel rhan o dimau chwaraeon ar lefel ysgol a ranbarthol ac wedi cael llwyddiannau nodedig cyson dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y chweched dosbarth yn ymddwyn yn aeddfed ac yn ymroi'n frwd i'w hastudiaethau ac i agweddau ehangach o fywyd yr ysgol. Maent yn arddangos deallusrwydd emosiynol aeddfed wrth diwtora disgyblion iau'r ysgol, er enghraifft, drwy helpu disgyblion Blwyddyn 7, 9 a Blwyddyn 11 i ddatblygu eu medrau darllen a'u medrau mathemategol. Mae disgyblion y chweched yn weithgar iawn yn trefnu gweithgareddau er budd elusennau lleol a chenedlaethol.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu awyrgylch gynhwysol a chartrefol yn eu dosbarthiadau. Maent yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf ac adeiladol gyda'r disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn defnyddio ystod o weithgareddau ac adnoddau buddiol i ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae cyflymdra da i'r gwersi hyn, mae'r tasgau'n gydlynus ac, o ganyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson. Mae'r athrawon hyn yn meithrin medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae ychydig o wersi yn arbennig o effeithiol. Mae'r athrawon yma'n frwdfrydig iawn, yn cynllunio'n greffus ac yn tanio diddordeb y disgyblion trwy ddarparu tasgau heriol. Maent yn holi cwestiynau miniog a threiddgar sydd yn symbylu'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach, ymestyn eu dealltwriaeth a chyfiawnhau eu safbwyntiau.

Yn y lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn holi'n ddigon treiddgar i helpu disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau meddwl yn llawn. Nid yw ychydig o athrawon yn cynllunio'n ddigon bwriadus na theilwra eu haddysgu'n ddigon medrus er mwyn bodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu.

Mae llawer o athrawon yn monitro cynnydd eu disgyblion yn gyson trwy gydol y wers trwy gylchu'r dosbarth yn effeithiol. Maent yn cynnig adborth adeiladol ar lafar ar waith disgyblion yn ogystal ac yn esbonio'n glir yr hyn sydd angen ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig i ddisgyblion yn amrywio'n ormodol o fewn ac ar draws pynciau. Mae sylwadau lleiafrif o athrawon yn rhy arwynebol a chanmoliaethus ac nid ydynt yn rhoi digon o gyngor na chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n llwyddo i ddiwallu anghenion bron pob disgybl ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'r ysgol, trwy gonsortwm Gwynedd a Môn, yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn cynnig pynciau fel gwyddoniaeth driphlyg, mathemateg pellach, a chysiau sy'n cefnogi disgyblion is eu gallu. Mae cynllunio pwrpasol yr ysgol yn sicrhau bod pob disgybl yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth ac yn cael amrywiaeth o brofiadau diddorol. Mae cyfarfodydd rhwng yr athrawon cynradd, cydlynnydd anghenion addysgol arbennig a phennaeth Blwyddyn 7 yn sicrhau bod dilyniant pwrpasol wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r cynradd.

Mae'r cydlynwyr llythrennedd a rhifedd yn darparu cefnogaeth fuddiol i athrawon i wella medrau'r disgyblion trwy hyfforddiant gwerthfawr. Mae'r ysgol yn cynllunio'n

fwriadus er mwyn datblygu medrau llythrennedd y disgyblion. Mae cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau rhifedd yn y pynciau perthnasol ac mewn sesiynau tiwtorial. Trwy ystod o ymyraethau pwrpasol, gan gynnwys defnydd effeithiol o fentoriaid chweched dosbarth, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gref i wella medrau'r holl disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r rhaglen eang o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr. Trwy'r trefniadau buddiol yma, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd arbennig i hybu'r Gymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi profi llwyddiannau rhanbarthol a chenedlaethol dros amser, gan gynnwys ennill cystadlaethau siarad cyhoeddus yn y Saesneg a Band Cymru yn 2018. Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau gwerthfawr â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol lleol fel 'Yr Ysgwrn', yn cystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd, ac wedi trefnu taith addysgiadol a cherddorol i Baris.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Tryfan yn ysgol gynhwysol, gofalgarn a chyfeillgar. Mae gwerthoedd 'teulu Tryfan' yn gosod sail gadarn i'w gwaith. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, yn dangos parch a gofal at eraill ac yn llwyddo yn eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth werthfawr iawn i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae gweithdrefnau cadarn i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnig strategaethau cymwys a phwrpasol i helpu athrawon gynllunio i ddiwallu anghenion disgyblion penodol. Gwneir defnydd effeithiol o staff atodol i sicrhau bod disgyblion ag anghenion arbennig yn gwneud cynnydd. Mae'r ysgol yn olrhain ac adolygu cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau yn briodol.

Mae gan yr ysgol systemau addas i olrhain cynnydd academiaidd a phresenoldeb y disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hyn yn bwrpasol i gefnogi disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac ymyrryd yn syth er mwyn cwrdd â'u gofynion penodol. Mae rhaglen lwyddiannus o ymyraethau pwrpasol sy'n cefnogi disgyblion â medrau sylfaenol gwan.

Mae systemau buddiol yn yr ysgol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol. Mae'r ysgol yn darparu ymyrraeth gadarnhaol sy'n sicrhau cynhaliaeth arbennig i les, datblygiad personol a chynnydd disgyblion bregus. Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gefnogi lles a iechyd meddwl disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hyn i oresgyn rhwystrau i'w cynnydd.

Mae gan yr ysgol berthynas agos a chynhyrchiol gyda rhieni. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol i'r nosweithiau gwybodaeth arferol er mwyn ymdrin â blaenoriaethau penodol i grwpiau o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cyflwyno adroddiadau cyson ar waith a chynnydd y disgyblion. Fodd bynnag, mae rhain yn gryno iawn ac mae ansawdd y sylwadau ar gyrhaeddiad a thargedau ar gyfer gwelliant yn amrywio'n ormodol.



Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn cynllunio a darparu rhaglen 'Gorwelion' i hyrwyddo ffordd iach o fyw ac yn datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus yn nghyfnod allweddol 3. Mae cyfraniad cadarnhaol siaradwyr gwadd, yr heddwas a nyrs yr ysgol, yn cyfoethogi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o les personol. Mae wythnos gweithgareddau yr haf yn cynnig rhaglen werthfawr i'r disgyblion fwynhau gweithgareddau awyr agored yn lleol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfranogi ac arwain trwy'r cynghorau ysgol. Maent hefyd yn cynnig amrediad gwerthfawr o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion yn y celfyddydau a chwaraeon. Mae hyn yn cynnwys timau chwaraeon, gweithdai cerdd a drama a chystadlaethau mathemateg, technoleg a chyfrifiadureg.

Mae pwyslais cryf ar hybu gwerthoedd cytûn ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad disgyblion, tuag at ei gilydd a thuag at staff. Mae'r ysgol yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth disgyblion o lawer o agweddau o gydraddoldeb yn briodol, megis trwy weithgareddau diwrnod 'Cerdyn Coch i Hiliaeth'.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i ddarparu addysg ddwyieithog o safon uchel mewn sefydliad cynhwysol, gofalgar a Chymreig. Mae'n cynnig arweiniad didwyll a doeth sy'n adlewyrchu amcanion yr ysgol, sef 'Cefnogi, ysbrydoli, yn deulu'. Mewn amser byr, mae wedi llwyddo i rannu'r weledigaeth hon gyda'i staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Caiff ei gefnogi'n llawn gan aelodau yr uwch dîm arwain, sydd yn rhannu'r un weledigaeth. Dros amser, mae arweinyddiaeth gref wedi arwain at ymdeimlad cryf o deulu cynhwysol mewn sefydliad lle mae Cymreictod, cynnal a chodi safonau a sicrhau lefelau uchel o les disgyblion yn graidd i holl waith yr ysgol.

Mae gan yr uwch dîm arwain rolau a chyfrifoldebau priodol ac maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r strwythur staffio a llinellau atebolwydd yn glir ac addas. Yn ddiweddar, mae prosesau atebolwydd wedi gwella er mwyn sicrhau bod pawb yn glir o'r disgwyliadau sydd ohonynt ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o gyfarfodydd cyson sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r trafodaethau yn y cyfarfodydd yn arwain at bwytiau gweithredu pwrpasol ac mae trefniadau priodol er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y rhain.

Mae llawer o arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Maent yn cymryd perchnogaeth lawn o godi safonau a gwella ansawdd yr addysgu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Gweithia'r tîm o benaethiaid blwyddyn yn effeithiol er mwyn sicrhau lefelau uchel o bresenoldeb a lles disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth mewn ychydig o bynciau wedi bod yn ddigon effeithiol wrth wella ansawdd yr addysgu a chodi safonau.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau, cyfrifoldebau a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae cysylltiadau

defnyddiol gyda llywodraethwyr ag adrannau unigol sydd yn eu caniatáu i herio'n briodol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ail strwythuro is-bwyllgorau'r llywodraethwyr yn addas er mwyn cryfhau eu prosesau gwarantu ansawdd. Trwy hyn, maent yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gwella ysgol yn fanwl. Maent yn deall eu rôl fel ffrind beirniadol ac eisoes wedi dangos eu parodrydd i gydweithio gyda'r pennaeth i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformio.

Mae'r ysgol wedi datblygu prosesau hunanwerthuso effeithiol dros amser. Mae'r gweithgareddau hunanwerthuso yn sicrhau bod arweinwyr a staff yn deall pwrpas y gweithgareddau a'r disgwyliadau sydd ohonynt. O ganlyniad, mae pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn. Mae arweinwyr yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth o agweddau pwysig o holl waith yr ysgol yn effeithiol, er enghraifft, wrth arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a holi barn disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ar bob lefel ddarlun clir o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yma'n effeithiol i gynllunio ar gyfer gwella ar lefel ysgol gyfan ac adrannol. Mae prosesau hunanwerthuso effeithiol wedi sicrhau safonau uchel, addysgu effeithiol a lles y disgyblion dros gyfnod.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn briodol. Mae cyswllt agos rhwng yr amcanion a osodir a blaenoriaethau gwella yr ysgol. Mae'r uwch dîm arwain wedi creu diwylliant o gefnogi dysgu proffesiynol staff ar bob lefel. Mae gan yr ysgol brosesau effeithiol i adnabod anghenion dysgu proffesiynol staff ac mae rhaglen gydlynus sy'n diwallu anghenion staff a blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen ddefnyddiol o waith ymchwil gweithredol unigol gan bob athro. Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol i rannu arfer dda ymhlith athrawon, gan gynnwys sesiynau hyfforddi effeithiol, rhwydweithiau proffesiynol ac arsylwi gwersi ar y cyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu arfer dda a deilliannau dysgu proffesiynol gyda staff eraill.

Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff er mwyn sicrhau darpariaeth o safon uchel. Gweithia'r ysgol yn gynhyrchiol mewn partneriaethau gydag ysgolion a choleg addysg bellach lleol er mwyn cyfoethogi profiadau disgyblion cyfnod allweddol 4 a sicrhau bod darpariaeth y chweched dosbarth yn hyfyw. Dros amser, mae'r bwrsar, arweinwyr a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a gwariant yn ofalus iawn. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ychydig o arian wrth gefn. Mae cynllunio gofalus yn sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er bod yr adeilad wedi dyddio a dirywio, a diffygion yn y cyfleusterau, yn enwedig y rhai addysg gorfforol, mae'r ysgol yn llwyddo i ddarparu amgylchedd gwaith ddiogel a phwrpasol i'w disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o grantiau i gefnogi lles a chyflawniad y disgyblion mwyaf bregus.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfenniadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/12/2019